Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid

## Deddfau ar gyfer cadw pobl yn ddiogel pan na fedran nhw wneud eu penderfyniadau eu hunain

### Y pethau ddywedodd pobl am y newidiadau a gafodd eu cynllunio ar gyfer y deddfau a'r rheolau newydd hyn yng Nghymru



Cafodd y ddogfen ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'r ddogfen hon yn fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ymgynghoriad – Crynodeb o Ymatebion – Rheoliadau Drafft ar gyfer Cymru: Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid**'.

**Mai 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y bydd arnoch chi angen cefnogaeth o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd eu deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 34**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:**
www.llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-gweithredur-diogeliadau-amddiffyn-rhyddid

**E-bost:**
MentalHealthandVulnerableGroups@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Cyflwyniad........................................................................4**

**Mwy o wybodaeth am y cwestiynau rydyn ni'n eu gofyn....7**

**Y pethau ddywedodd pobl...................................................9**

**Y Camau nesaf.................................................................33**

**Geiriau anodd...................................................................34**

# Cyflwyniad



Ym mis Mawrth 2022, gofynnon ni i bobl am eu barn am **Reoliadau** newydd ar gyfer cadw pobl sydd **heb alluedd** yn ddiogel.  Mae **Rheoliadau** yn ddeddfau yng Nghymru sy'n nodi rheolau newydd.





Mae **heb alluedd** yn meddwl nad yw meddwl person yn gweithio fel y dylai am ryw reswm. Ac mae hyn yn meddwl nad ydyn nhw'n gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain am ryw fater arbennig ar y pryd.

Efallai bod rhywun **heb alluedd** oherwydd pethau fel:

- anabledd, salwch, neu wedi cael anaf
- dementia
- problem iechyd meddwl

Efallai nad ydyn nhw'n deall gwybodaeth am benderfyniad. Neu efallai nad ydyn nhw'n gallu gwneud eu penderfyniad yn glir.



Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'r pethau ddywedodd pobl am reolau newydd **Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid**. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud nawr na fyddan nhw'n gwneud y gwaith ar gyfer dechrau'r **Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid** tan ar ôl etholiad nesaf Llywodraeth y DU.




Mae gennym ni ddeddfau sy’n helpu i wneud yn siŵr bod pobl sydd **heb alluedd** yn cael eu cadw’n ddiogel.



Bydd ar rai o’r deddfau hyn angen cael eu diweddaru yng Nghymru ac yn Lloegr.




Dan yr hen ddeddfau roedd pobl sydd **heb alluedd** yn cael eu hamddiffyn gan system sy’n cael ei galw’n **Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**.



Roedd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn mynd i gael eu rhoi yn lle y system hon. I fod yn fyr, byddwn yn galw’r rhain yn **Ddiogeliadau**.



Pwrpas y **Diogeliadau** yw rhoi gwell hawliau ac amddiffyniad i bobl sydd **heb alluedd** i gytuno i gael gofal neu driniaeth sydd rhywsut yn mynd â’u rhyddid oddi arnyn nhw.



Er engraifft, er mwyn eich diogelwch, efallai y bydd staff ysbyty yn eich rhwystro rhag cerdded o gwmpas a gadael yr adeilad. Gall pobl sydd â **galluedd** gytuno i gael y gofal a'r driniaeth hon.



Efallai na fydd rhywun sydd **heb alluedd** yn gallu cytuno i gael y gofal neu'r driniaeth hon. Pwrpas y Diogeliadau yw helpu i amddiffyn y bobl hynny a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu trin yn deg.



Pwrpas y **Diogeliadau** yw gwneud yn siŵr bod y person yn cael ei roi yn gyntaf, bod ganddo lais cryfach a bod pobl yn gwrando arno. to.



Yn wahanol i'r hen system **Drefniadau Diogelu**, byddai'r **Diogeliadau** yn cael eu defnyddio ym mhob lleoliad ar gyfer unrhyw un sy'n 1**6 mlwydd oed a throsodd, sydd heb alluedd**.



Byddai hyn yn meddwl bod yn rhaid i bawb ddilyn rheolau'r **Diogeliadau** ym mywyd bob dydd y bobl ac yn eu cartrefi eu hunain, nid dim ond mewn cartrefi gofal ac ysbytai.

# Mwy o wybodaeth am y cwestiynau rydyn ni'n eu gofyn



Fe ofynnon ni gwestiynau i bobl am eu barn am ddeddfau newydd y Diogeliadau. Mae hyn yn cael ei alw'n **ymgynghoriad**.


Yn yr ymgynghoriad fe ofynnon ni gwestiynau ynglŷn â




- Y pedair set o **ddeddfau** newydd yng Nghymru. Mae'n rhaid i bobl a gwasanaethau ddilyn y rheolau sy'n cael eu gosod gan y deddfau hyn. Mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod y **Diogeliadau** yn cael eu dilyn yn iawn.



- **Set Ddata Sylfaenol Genedlaethol** newydd. Dyma'r rhestr o wybodaeth y mae'n rhaid i wasanaethau eu casglu wrth ddefnyddio'r **Diogeliadau.** Bydd hyn yn ein helpu i  weld sut y mae'r **Diogeliadau** yn gweithio ar dra=ws Cymru.




- **Cynllun gweithwyr a hyfforddiant**. Bydd hyn yn edrych ar bethau fel faint o staff sydd â gwahanol sgiliau i ddefnyddio'r **Diogeliadau** sydd eu hangen.




- **Asesiadau effaith** – mae'r rhain yn ddogfennau sy'n edrych i weld pa effeithiau y gallai'r **Diogeliadau** eu cael. Fel sut y bydd yn effeithio ar hawliau pobl, faint y bydd yn ei gostio a sut y bydd yn wel.





Gallwch ddod o hyd i'r holl wybodaeth am yr ymgynghoriad yma: [www.llyw.cymru/diogeliadau-amddiffyn-rhyddid](http://www.llyw.cymru/diogeliadau-amddiffyn-rhyddid).



Fe gawson ni 72 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedden nhw gan wahanol bobl ar draws Cymru.



Mae'r rhan nesaf yn dangos pa gwestiynau ofynnon ni a'r pethau ddywedodd pobl.




Roedd 22 o gwestiynau.

# Y pethau ddywedodd pobl

## Cwestiwn 1



Roedd **Cwestiwn 1** yn gofyn a oedd y newidiadau i'r gyfraith yn ei gwneud hi'n gliriach beth y bydd **Eiriolwyr Annibynnol Galluedd Meddyliol** yn ei wneud i helpu pobl sydd **heb alluedd**.



Mae **Eiriolwyr Annibynnol Galluedd Meddyliol** yn weithwyr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant arbennig. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod lleisiau pobl sydd **heb alluedd** yn cael eu clywed. Maen nhw'n helpu i amddiffyn eu hawliau a'u dewisiadau.

## Y pethau ddywedodd pobl:



Dywedodd y rhan fwyaf o bobl bod y newidiadau i'r ddeddf yn gwneud y rôl yn gliriach.



Dywedodd rhai y dylai'r newidiadau gael eu gwneud yn gliriach.



Dywedodd rhai pobl y dylai bod y gwahaniaeth rhwng yr **Eiriolwyr** hyn a **Pherson Priodol** yn gliriach.



**Person Priodol** yw rhywun sy'n rhoi cefnogaeth i berson sydd **heb alluedd** ac efallai y bydd yn siarad ar ei ran hefyd. Er enghraifft, aelod o'r teulu neu ffrind.



Roedd rhai pobl yn poeni a fyddai digon o hyfforddiant ar gyfer staff. A digon o arian.




Dywedodd rhai pobl bod arnyn nhw eisiau gwneud yn siŵr y byddai digon o **Eiriolwyr** yn siarad Cymraeg.

# Cwestiwn 2




Roedd **Cwestiwn 2** yn gofyn am farn pobl ynglŷn â phwy sy'n gallu gwneud **asesiadau** ac **adolygiadau** a phenderfynu pryd y bydd rhywun **heb alluedd**.



Mae **asesiadau'n** cael eu defnyddio i weld a yw rhywun **heb alluedd** neu a oes ganddo anhwylder iechyd meddwl. Ac i weld a oes angen y gofal sy'n cael ei awgrymu ar ei gyfer i'w gadw'n ddiogel os bydd y gofal yn cymryd peth o'i ryddid oddi arno.

Mae'n rhaid i **asesiadau** gael eu gwneud gan bobl sydd â'r medrau a'r profiad iawn.



**Adolygiad cyn-awdurdodi** yw'r gwiriad olaf i wneud yn siŵr bod yr **asesiadau** wedi cael eu gwneud yn iawn, a bod y penderfyniadau gorau wedi cael eu gwneud ar gyfer y person.

Mae'n rhaid i **adolygiadau** gael eu gwneud gan berson sydd â'r medrau a'r profiad iawn.

## Y pethau ddywedodd pobl:




Dywedodd rhai pobl bod y rheolau'n glir. Dywedodd rhai eu bod yn rhy hir a bod angen iddyn nhw fod yn fwy syml.



Roedd rhai pobl yn poeni gan nad yw’r rheolau yn dweud yn glir **pwy** ddylai wneud **adolygiadau**.




Dywedodd rhai pobl bod angen mwy o arweiniad ynglŷn â’r ffordd y mae **asesiadau** ac **adolygiadau** yn cael eu trefnu.



Mae ar bobl angen gwybodaeth mwy clir ynglŷn â **phwy** sy’n cael gwneud **asesiadau**. Tybed a yw’n gallu bod yn rhywun sy’n gofalu am y person yn barod! Ac a yw’n gallu bod yn bobl o’r un tîm.



Roedd rhai yn poeni y byddai’r newidiadau yn meddwl na fyddai rhai gweithwyr proffesiynol a fyddai’n arfer gwneud **asesiadau** ddim yn gallu eu gwneud nhw ddim mwy. Roedd pobl eraill yn awgrymu y dylai gweithwyr proffesiynol eraill fedru gwneud **asesiadau**.



Teimlai rhai pobl nad yw pob meddyg teulu yn medru gwneud **asesiadau** meddygol am wahanol resymau.



Roedd pobl yn poeni bod yr amser sy'n cael ei roi i wneud **asesiadau** ddim yn ddigon hir.




Roedd pobl yn dweud ei bod yn bwysig bod **asesiadau'n** cael eu gwneud yn Gymraeg os dyna yw'r iaith sydd orau gan y person ei ddefnyddio.

## Cwestiwn 3



Roedd **Cwestiwn 3** yn gofyn a fyddai'r rheolau newydd yn helpu gweithwyr proffesiynol i wneud **asesiadau** a gwneud penderfyniadau.

## Y pethau ddywedodd pobl:



Roedd pobl yn poeni nad oes digon o staff ac amser i wneud **asesiadau**.



Mae hyfforddiant yn bwysig iawn i bobl sy'n gwneud **asesiadau**, **adolygiadau** a gwneud penderfyniadau.

## Cwestiwn 4



Roedd **Cwestiwn 4** yn gofyn a fyddai'r rheolau newydd yn amddiffyn arian ac eiddo pobl.

## Y pethau ddywedodd pobl:



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn teimlo y byddai'r rheolau newydd yn cadw arian pobl yn ddiogel.



Ond bydd hyfforddiant ar gyfer **Gweithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy** yn bwysig.



Mae **Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy** yn weithiwr proffesiynol sydd â'r gwaith o helpu pobl gyda'r **Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid**. Byddai hyn yn rôl swydd newydd.

## Cwestiynau 5, 6, 7, 8, 9 a 10



Roedd **Cwestiynau 5, 6, 7, 8, 9** a **10** yn gofyn i bobl am eu barn am rôl **Gweithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy**.

## Y pethau ddywedodd pobl:



Roedd rhai yn meddwl bod y rheolau'n glir. Roedd rhai eraill yn teimlo bod arnyn nhw angen mwy o wybodaeth.



Roedd rhai yn meddwl bod angen ei wneud yn gliriach sut y byddai'r **Gweithwyr Proffesiynol** hyn yn cael eu rheoli.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn meddwl bod y rheolau ar gyfer cymeradwyo'r **Gweithwyr Proffesiynol** yn dda.

### Ynglŷn â chydweithio




Dywedodd pobl y byddai'n rhaid i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod digon o **Weithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy.**



Roedd pobl yn cytuno y dylai’r rheolau helpu awdurdodau lleol weithio gyda’i gilydd a gweithio gyda phartneriaid i gymeradwyo **Gweithwyr Proffesiynol**.



Roedd pobl yn dweud y dylai’r rheolau fod yn gryfach ac y dylai partneriaid weithio gyda’i gilydd i gymeradwyo **Gweithwyr Proffesiynol**.




Roedd rhai pobl yn meddwl y dylai **Gweithwyr Proffesiynol** gael eu cymeradwyo i wneud y rôl am amser penodol.



Roedd rhai yn meddwl bod angen ei wneud yn gliriach sut y byddai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda’i gilydd.

## Gweithio fel Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn meddwl y byddai’r rheolau newydd yn gadael i weithwyr proffesiynol wneud rôl **Gweithiwr Proffesiynol** yn dda.



Roedd rhai yn meddwl y dylai staff o rolau swyddi eraill allu dod yn **Weithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy**.



Roedd rhai yn poeni y byddai galw mawr am y **Gweithwyr Proffesiynol** hyn. A byddai hyn yn cael effaith ar amser staff a byddai'n costio llawer mwy.



Roedd rhai pobl yn dweud y dylai'r rheolau ar gyfer gwirio gwaith y **Gweithwyr Proffesiynol**, a phenderfynu a ddylen nhw barhau yn y rôl, gael ei wneud yn gliriach.

## Hyfforddiant



Roedd llawer o bobl yn cefnogi yr hyfforddiant a gafodd ei awgrymu ar gyfer **Gweithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy**.



Ond roedd pryderon ynglŷn â faint y byddai'r hyfforddiant yn ei gostio a pha mor hir y byddai'n ei gymryd.



Roedd pobl yn dweud bod yn rhaid i hyfforddiant ar gyfer **Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy** fod o safon uchel.




Roedd gwahanol farn ynglŷn â'r angen am i **Weithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy** gael 18 awr o hyfforddiant ychwanegol bob blwyddyn.



Roedd pobl yn ansicr ynglŷn â'r syniad o gael 18 awr ychwnaegol o hyfforddiant wedi'i gymeradwyo un ai gan Ofal Cymdeithasol Cymru neu awdurdod lleol yng Nghymru.



Os bydd y 18 awr o hyfforddiant yn cael ei gymeradwyo gan wahanol awdurdodau lleol, efallai y bydd **Gweithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy** yn dechrau gweithio mewn ffyrdd gwahanol.

## Cwestiwn 11



Roedd **Cwestiwn 11** yn gofyn i bobl a oedden nhw'n cytuno â'r ffordd y bydd y **Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid** yn cael eu gwirio ac yn cytuno â'r rheolau ynglŷn ag adrodd am y **Diogeliadau**.

## Y pethau ddywedodd pobl:



Roedd pobl yn cytuno â'r awgrym am gael **Cyrff Monitro**.



Mae'r **Cyrff Monitro** yn sefydliadau fydd yn siarad â phobl i edrych sut y mae gwasanaethau'n defnyddio'r Diogeliadau a phrofiadau pobl o'r diogeliadau. Y **Cyrff Monitro** yng Nghymru yw **Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** ac **Estyn.**




Roedd pobl yn dweud y dylai bod rheolau cliriach ynglŷn ag adrodd.




Dylai'r rheolau fod yn gryfach ynghylch dweud sut y mae'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio. A  sut y mae'r **Diogeliadau** yn cefnogi siaradwyr Cymraeg.

## Cwestiwn 12 ac 13




Roedd **cwestiwn 12** yn gofyn a oedd pobl yn cytuno sut i gael caniatâd gan bobl sy'n cael gofal, cyn i rywun siarad â nhw.




Roedd **Cwestiwn 13** yn gofyn a oedd pobl yn meddwl y byddai'r rheolau newydd yn amddiffyn hawliau'r person sy'n cael gofal.

## Y pethau ddywedodd pobl:




Roedd gan bobl  farn wahanol am hyn.



Roedd pobl yn gofyn cwestiynau ynglŷn â'r ffordd y buasai gwirio ac adrodd am reolau'r **diogeliadau** pan fydd pobl yn eu cartrefi eu hunain yn gweithio mewn bywyd go iawn.



Roedd rhai pobl yn dweud bod arnon ni angen bod yn gliriach ynglŷn â phwy i ofyn am ganiatâd pan fyddan nhw'n ymweld â pherson sy'n cael gofal. Mae hyn yn bwysig iawn pan fydd pobl yn rhannu eu cartref â phobl eraill.



Roedd pobl yn teimlo bod yr **Eiriolwr Annibynnol Galluedd Meddyliol** yn bwysig iawn yma i helpu i amddiffyn hawliau pobl.



Roedd pobl yn poeni a ddylai'r **Corff Monitro** ymweld â nhw a siarad â nhw pan fyddan nhw'n rhan o wneud penderfyniad ar gyfer y person sy'n cael gofal.




Mae ar bobl eisiau i ni egluro'n well sut y bydd hawliau pobl sy'n cael gofal yn cael eu hamddiffyn gan y **Diogeliadau** pan ddaw hi'n amser i wirio ac adrodd. Yn enwedig pan fydd y person sy'n cael gofal yn byw yn eu cartref eu hunain.

## Cwestiwn 14



Roedd **Cwestiwn 14** yn gofyn a oedd pobl yn cytuno â faint roedden ni'n meddwl y byddai rheolau'r **Diogeliadau** newydd yn costio. A beth fydd y manteision a'r effaith.

## Y pethau ddywedodd pobl:



Roedd pobl yn anghytuno â faint roedden ni'n meddwl y byddai'r **Diogeliadau** yn costio. Roedden nhw'n meddwl y byddan nhw'n costio mwy.



Roedd pobl yn sôn am faterion sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cael digon o amser, arian a staff. A byddai angen llawer o hyfforddiant staff ar draws byd iechyd a gofal cymdeithasol.



Dywedodd rhai pobl y byddai angen mwy o **asesiadau** nag yr oedden ni'n bwriadu eu gwneud. A byddai **asesiadau** yn cymryd mwy o amser ac yn costio mwy. Byddai'n anodd i feddygon teulu wneud mwy o **asesiadau** gan eu bod mor brysur yn barod.



Dywedodd pobl nad oedden nhw'n gwybod faint o arian fyddai ei angen ar gyfer **eiriolaeth**.



Roedd pobl yn meddwl y byddai  angen i'r **Gweithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy** wneud mwy nag yr oedden ni wedi cynllunio ar eu cyfer. Felly mae'n debyg y bydd angen mwy o arian ar gyfer y **Gweithwyr Proffesiynol**.




Roedd pobl yn anghytuno â chost hyfforddiant **Gweithwyr Proffesiynol**. Maen nhw'n meddwl y bydd yn costio mwy.




Mae angen i ni feddwl mwy am y gost o greu gwybodaeth ac adnoddau. Gofynnodd pobl i ni greu gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd fel bo pawb yn gallu ei darllen a'i defnyddio er mwyn medru deall y Diogeliadau.

# Cwestiwn 15



Roedd **Cwestiwn 15** yn gofyn a oedd pobl yn cytuno â'r rhestr o wybodaeth sydd ei hangen yn y **Set Ddata Sylfaenol Genedlaethol ar gyfer Cymru**.

## Y pethau ddywedodd pobl:




Ar y cyfan, roedd pobl yn cytuno â'r rhestr o wybodaeth sydd ei hangen.



Roedd pobl yn cefnogi defnyddio system genedlaethol i adrodd am y **Diogeliadau** ar draws Cymru.




Roedd rhai pobl yn poeni bod y rhestr o wybodaeth sydd ei hangen ar y **Diogeliadau** yn ormod. Ac y byddai'n anodd i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol eu casglu. Awgrymodd pobl eraill y dylai gwybodaeth arall gael ei chasglu hefyd.




Roedd rhai pobl yn poeni bod y rhestr o wybodaeth yn canolbwyntio ar broses y **Diogeliadau**. Ac nid ar y canlyniadau ar gyfer y person.

## Cwestiwn 16



Roedd **Cwestiwn 16** yn gofyn am ein **hasesiad effaith** ar hawliau plant.

## Y pethau ddywedodd pobl:



Ar y cyfan, roedd pobl yn cytuno â'r **asesiad effaith** ar hawliau plant. Ond roedd rhai awgrymiadau ynglŷn â sut y gallwn ni ei wella.




Roedd ar bobl eisiau i wybodaeth gael ei gwneud am y **Diogeliadau** ar gyfer pobl ifainc a'u teuluoedd.


## Cwestiwn 17



Roedd **Cwestiwn 17** yn gofyn am ein **hasesiad effaith** ar bobl sydd â **nodweddion gwarchodedig**.

Mae **nodweddion gwarchodedig** yn bethau ynglŷn â chi sydd weithiau'n gwneud i chi gael eich trin yn annheg. Fel anabledd, eich oed, neu eich rhywioldeb. Mae'r gyfraith yn amddiffyn pobl rhag cael eu trin yn annheg oherwydd y pethau hyn.

## Y pethau ddywedodd pobl:



Ar y cyfan, roedd pobl yn cytuno â'r **asesiad effaith** ar bobl â **nodweddion gwarchodedig**. Ond roedd rhai awgrymiadau ynglŷn â sut y gallwn ni ei wella.



Roedd rhai pobl yn dweud bod  angen edrych yn fwy agos ar yr holl **nodweddion gwarchodedig**. Ac yn dweud mai dim ond am oed a hil yr oedden ni'n ysgrifennu.




Roedd rhai pobl yn teimlo bod angen i ni feddwl mwy am ddeddfau hawliau dynol.

## Cwestiwn 18




Roedd **Cwestiwn 18** yn gofyn oedd pobl yn cytuno bod ein **cynllun gweithwyr a hyfforddiant** yn helpu ein staff i weithio mewn ffordd sy'n gwneud yn siŵr bod anghenion y person sy'n cael gofal yn eu meddwl drwy'r amser.

## Y pethau ddywedodd pobl:




Oedd, roedd pobl yn meddwl y byddai'r cynllun yn ein helpu i weithio mewn ffordd sy'n rhoi'r person sy'n cael gofal yn gyntaf.



Roedd pobl yn hoffi'r ffordd roedden ni'n rhannu'r staff yn chwe grŵp allweddo.

## Cwestiwn 19




Roedd **Cwestiwn 19** yn gofyn am ein **hasesiad effaith** ar yr iaith Gymraeg.

## Y pethau ddywedodd pobl:




Roedd pobl yn dweud ei bod hi'n bwysig iawn defnyddio'r **Cynnig Gweithredol** yn y **Diogeliadau. Mae Cynnig Gweithredol** yn meddwl darparu gwasanaethau yn Gymraeg heb i bobl orfod gofyn amdanyn nhw'n gyntaf.




Roedd rhai yn poeni nad oedd y rheolau'n ddigon cryf ynglŷn â chael digon o staff sy'n gallu darparu'r **Diogeliadau** yn Gymraeg. Roedd rhai yn dweud bod angen i ni wella'r wybodaeth rydyn ni'n bwriadau ei chasglu ar y **Cynnig Gweithredol.** A tybed a yw **asesiadau** yn cael eu cynnig a'u gwneud yn Gymraeg, neu yn yr iaith mae'r person yn ei dewis.

## Cwestiwn 20



Roedd **Cwestiwn 20** yn gofyn i bobl pa effaith roedden nhw'n meddwl y byddai'r **Diogeliadau** yn ei gael ar yr iaith Gymraeg.


## Y pethau ddywedodd pobl:




Gallai'r rheolau fod yn dda ar gyfer yr iaith Gymraeg. Cyn belled â bod digon o amser, arian, staff, a hyfforddiant i wneud yn siŵr y gall gwasanaethau gael eu darparu yn Gymraeg.




Dylai'r person sy'n cael gofal gael ei gefnogi yn yr iaith y mae'n ei dewis.




Mae angen i gyflogwyr  wneud yn siŵr bod digon o staff sy'n siarad Cymraeg.  Mae angen i gyflogwyr gynllunio ar gyfer hyn.

## Cwestiwn 21




Roedd **Cwestiwn 21** yn gofyn i bobl sut y gallen ni newid y rheolau i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith dda ar yr iaith Gymraeg

## Y pethau ddywedodd pobl:




Byddai'n well petai hyfforddiant ar y **Diogeliadau** ar gyfer staff yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.




Dylai cyflogwyr gynllunio i wneud yn siŵr bod digon o siaradwyr Cymraeg. Dylai bod mwy o **Eiriolwyr Annibynnol Galluedd Meddyliol** a **Gweithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy** sy'n siarad Cymraeg.

## Cwestiwn 22



**Roedd Cwestiwn 22** yn gofyn i bobl a oedd ganddyn nhw unrhyw beth arall roedden nhw am ei ddweud, nad oedd wedi cael ei ddweud yn barod.

## Y pethau ddywedodd pobl:




Mae'r rheolau yn dda, ond mae'n rhaid i bawb wneud yn siŵr eu bod yn cael eu dilyn yn iawn mewn bywyd go iawn.



Roedd y Diogeliadau i fod yn fwy syml na'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Roedd rhai pobl yn dweud nad oedden nhw.



Mae yna heriau o hyd y mae angen i ni ddod drostyn nhw er mwyn newid drosodd at y Diogeliadau. Mae ar staff angen digon o amser i ddod i arfer â'r rheolau newydd. Mae ar gyflogwyr angen amser i hyfforddi **Eiriolwyr Annibynnol Galluedd Meddyliol** a dod o hyd i Weithwyr **Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy**.



Roedd rhai pobl yn poeni nad oedd y person sy'n cael gofal yn ganolbwynt i broses y **Diogeliadau**.




Mae ar bobl eisiau i'r wybodaeth sydd wedi cael ei hysgrifennu am y **Diogeliadau** fod yn haws cael gafael arni, ac yn haws i bawb ei darllen a'i deall.




Mae angen i ni weithio gyda Llywodraeth y DU i wneud rhai pethau'n gliriach. Fel diffiniad **amddifadu o ryddid**. Mae hyn yn meddwl dweud yn glir beth yw cymryd rhyddid rhywun i ffwrdd. Mae diffiniad **amddifadu o ryddid** yn bwysig iawn gan y bydd yn effeithio ar bwy fydd yn cael ei warchod gan y **Diogeliadau**.

# Y Camau nesaf



Mae Llywodraeth y DU bellach wedi dweud na fyddan nhw'n gwneud y gwaith i ddechrau'r LPS tan ar ôl etholiad nesaf Llywodraeth y DU.



Rydym wedi gwirio i weld pa newidiadau y gallai fod angen i ni eu gwneud i'r cyfreithiau a'r rheolau newydd sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Cymru, a’r asesiadau effaith, ar ôl i ni glywed beth y mae pobl wedi’i ddweud.



Ni all Llywodraeth Cymru ofyn i'r Senedd basio'r rheolau newydd i Gymru nes bod Llywodraeth y DU yn penderfynu pryd fydd yr LPS yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr.



Rydym yn edrych i weld pa waith y gallwn ei wneud ar y Set Ddata Isafswm Genedlaethol a chynllun y gweithlu wrth i ni aros am benderfyniad Llywodraeth y DU.




Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn. Mae eich barn wedi bod o gymorth mawr i ddeall pa newidiadau sydd eu hangen yng Nghymru. Byddwn hefyd yn defnyddio'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu i siapio sut y gallwn wella'r system bresennol cyn i'r gwaith i ddechrau'r LPS gario ymlaen.

# Geiriau anodd

## Adolygiad Cyn-awdurdodi

Adolygiad cyn-awdurdodi yw'r gwiriad olaf i wneud yn siŵr bod yr asesiadau wedi cael eu gwneud yn iawn, a bod y penderfyniadau gorau wedi cael eu gwneud ar gyfer y person.

Mae'n rhaid i adolygiadau gael eu gwneud gan berson sydd â'r medrau a'r profiad iawn i gadarnhau bod gweithwyr proffesiynol wedi cymryd y camau iawn.  Mae wedyn yn rhoi cyngor i'r Corff Cyfrifol i weld allan nhw gytuno ar y gofal, y gefnogaeth a'r driniaeth os yw hyn yn meddwl bod y rhain yn cyfyngu ar ryddid person.

Mae'r adolygiad cyn-awdurdodi yn wahanol i'r adolygiad rheolaidd cyffredin sy'n ymwneud â chynllun gofal a chefnogaeth y person.

## Asesiad

Mae asesiadau yn cael eu defnyddio i weld a yw rhywun heb alluedd neu a oes ganddo anhwylder iechyd meddwl. Ac i weld a oes angen y gofal sy'n cael ei awgrymu ar ei gyfer i'w gadw'n ddiogel os bydd y gofal yn cymryd peth o'i ryddid oddi arno.

Mae'n rhaid i asesiadau gael eu gwneud gan bobl sydd â'r medrau a'r profiad iawn.

## Awdurdodiad

Dyma pryd mae'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol yn cytuno bod rhywun yn gallu cael ei ryddid wedi'i dynnu oddi arno, er mwyn cefnogi ei ofal a'i driniaeth.

## Corff Cyfrifol

Mae hwn un ai yn fwrdd iechyd neu'n awdurod lleol yng Nghymru sy'n awdurdodi gofal a thriniaeth dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid sy'n cymryd rhyddid person i ffwrdd.

## Cyrff Monitro ac Adrodd

Mae'r Cyrff Monitro yn fudiadau fydd yn siarad â phobl i edrych sut y mae gwasanaethau yn defnyddio'r Diogeliadau a phrofiadau pobl o'r Diogeliadau. Y Cyrff Monitro yng Nghymru yw Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn.

## Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid neu Ddiogeliadau

Deddfau newydd sy'n rhoi rheolau i amddiffyn hawliau pobl 16 a throsodd, os oes arnyn nhw angen gofal a chefnogaeth sy'n cymryd peth o'u rhyddid i ffwrdd.

## Eiriolwyr Annibynnol Galluedd Meddyliol

Mae Eiriolwyr Annibynnol Galluedd Meddyliol yn weithwyr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant arbennig. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod pobl sydd heb alluedd yn cael eu clywed. Maen nhw'n helpu i amddiffyn eu hawliau a'u dewisiadau.

## Gweithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy

Mae Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy yn weithiwr proffesiynol sydd â'r gwaith o helpu pobl gyda'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Byddai hyn yn rôl swydd newydd ac y mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ddod yn gymeradwy ar ôl cwblhau hyfforddiant arbennig. Mae'r rheolau newydd yn dweud mai dim ond nyrs, gweithiwr cymdeithasol, therapydd galwedigaethol, therapydd iaith a lleferydd neu ymarferydd seicoleg all wneud rôl y Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy.

## Heb alluedd

Mae heb alluedd yn meddwl nad yw meddwl person yn gweithio fel y dylai am ryw reswm. Ac mae hyn yn meddwl nad ydyn nhw'n gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain am ryw fater arbennig ar y pryd.

Efallai bod rhywun heb alluedd oherwydd pethau fel:

- anabledd, salwch, neu wedi cael anaf
- dementia
- problem salwch meddwl

Efallai nad ydyn nhw'n deall gwybodaeth am benderfyniad. Neu efallai nad ydyn nhw'n gallu cyfathrebu eu penderfyniad.

## Person Priodol

Person Priodol yw rhywun sy'n rhoi cefnogaeth i berson sydd heb alluedd ac efallai y bydd yn siarad ar ei ran hefyd. Efallai y bydd y person sy'n cael gofal yn dewis aelod o'r teulu neu ffrind. Gall Person Priodol gael ei gefnogi gan Eiriolwr hefyd.

## Rheoliadau

Deddfau.